Cyngor Cymuned Ganllwyd

Mai 10fed 2023

Presennol

Cyng. C.Dixon, S.Roberts, C.Edwards, G.Hughes,S.Jones, a D.Griffiths.

Ymddiheuriad Dim

**Cyfarfod gyda cynrichiolydd cwmni Magnox i ymwneud a cais cynllunio NP5/73/278M "PONDS COMPLEX".**

Swyddogion y cwmni yn bresennol oedd Angharad Rayner a Sion Roberts

Mewn cyflwyniad esboniodd y swyddogion mai bwriad Magnox ydi defnyddio y Ponds sef twll enfawr tebyg i bwll nofio gwag i ddal dwr halogedig fel darn o'r broses cau y safle atomeg.

Mae'n debyg bydd safle Magnox yn Trawsfynydd wedi mynd yn gyfan gwbl erbyn diwedd y ganrif ac ar ddiwedd y broses yma yr unig beth fydd ar ol fydd y "Ponds Complex"

Cyn gadael y safle bydd y cwmni yn monitro'r safle i sicrhau nad oes gwastraff niwclear niweidiol ar ol ar y safle ac hefyd yn ystod y weithdrefn cau pan fydd cyfarpar yn cael ei dynnu o'r safle.

Er nad yw manylion y wybodaeth a ddarparwyd yn ystod y cyfarfod wedi'i chofnodi'n llawn (oherwydd ei gymhlethdod a'i fanylder) cafodd aelodau'r cyngor eu sicrhau o'r wybodaeth a ddarparwyd iddynt a maen't yn fodlon â'r mesurau y mae Magnox yn paratoi i'w cymryd wrth gau a dadosod yr orsaf bŵer.

Bydd yn parhau i fonitro'r cais hwn wrth iddo fynd trwy wahanol gamau.

**Cofnodion Ebrill 2023.**

Cynnigodd Cyng C.Dixon fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng C.Edwards.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

**Dim.**

**Materion yn codi.**

Cais safle telecoms Cwm Hafod Owen gan cwmni Teligent Telecom—Nid yw'r Cyngor wedi derbyn unrhyw wrthwynebiadau hyd yma i'r cais arfaethedig am fast ffôn newydd yn y lleoliad hwn.

Ffordd Ty Cerrig-Mae'r clerc wedi derbyn gwybodaeth gan Mr Norman Hughes pennaeth tim Ardal Ni yn egluro fod y gwaith clirio wrth neuadd y pentref wedi ei gwblhau ond mae Cyng Edwards wedi sicarhau y cyngor fod gwaith clirio'r gwteri a.y.b he bi gwblhau.

Bydd Cyng Edwards yn gyrru lluniau i'r Cynghorydd Sir i ddangos hyn ac er mwyn i'r cynghorydd drafod y mater gyda Cyngor Gwynedd.

A470 Ganllwyd --Mae swyddog cefnffyrdd Mr Owain Peredur Jones wedi ymweld ar lleoliad.

Wrth gysylltu a'r cyngor mae Mr Jones yn cydnabod fod yna broblem gyda cyflwr y ffordd a bydd gwaith yn cael ei wneud i ddatrus y broblem pan fydd adnoddau ar gael.

**Cyngorhydd Sir-** Derbyniwyd gwybodaeth gan Cyng Grifiths ar faterion yn ymwneud ac Ardal Ni 2035.

**Toiled Ganllwyd.**

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno gadael y toiled yn Ganllwyd ar agor trwy'r dydd. Fe fydd y cyngor yn asesu os yw'r penderfyniad yma yn llwyddiannus ar ddiwedd cyfnod prawf sydd yn dod di ben ar 31eg Gorffennaf 2023.

**Materion ariannol**.

Cyson Banc: Ebrill 2023

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £3541.68 |

Derbyniwyd:

| | |
|---|---|
| Praesept | £1625.00 |

Taliadau:

| | |
|---|---|
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £10.00 |
| Rhodd Capel Libanus | £150.00 |
| Rhodd neuadd y pentref | £350.00 |
| | |
| Yn y Banc diwedd mis | £4566.68 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Awdit allanol- Ar ol trafodaeth cytynwyd y cyngor fod y manylion a gynhwysir ar y ffurflen flynyddol (Annual return) ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023 yn gywir. Cafodd y ffurflen ei llofnodi a'i dyddio gan y cadeirydd Cyng Dixon a'r RFO Michael Owen

**Llythyrau & E-bost**

Dim